CYFLWYNIAD

Dyma Terry Barry gyda chrynodeb o brif straeon Colombia, 11eg o Fehefin 2014

00.10' Giro d'Italia a Chwpan y Byd

Yn gyntaf chwaraeon, gan fod y rhain wedi bod yn meddiannu lle blaenllaw yn y penawdau cenedlaethol dros yr wythnos diwethaf - rhywbeth sy'n gyffredin iawn pan fydd buddugoliaeth fawr yn cael ei hennill gan ddinasyddion Colombia.

Ond mae'r wlad wedi bod yn dathlu ac yn tristau yr un pryd.

Y newydd da o lawenydd mawr yw bod Nairo Quintana, y seiclwr o'r Andes uchel yng nghanol Colombia, wedi ennill y Giro d'Italia ar ddechrau mis Mehefin, un o'r rasys seiclo rhyngwladol pwysicaf y byd ar ôl y tour de France, ac ar yr un lefel â'r Vuelta a España.

Yn wir, daeth Colombia yn gyntaf ac yn ail wrth i Rigoberto Urán , Colombiad arall, gipio'r ail safle. Y newyddion felly sy'n amlycaf ac efo mwy o sylw nag unrhyw newydd arall sydd o bosibl yn bwysicach, megis trafodaethau heddwch rhwng gwrthryfelwyr arfog a'r llywodraeth ac etholiadau arlywyddol (y ddau sy'n digwydd ar hyn o bryd yng Ngholombia!)

A'r newydd chwaraeon trist iawn – wel, dyw'r chwaraewr pêl-droed, Radamel Falcao ddim yn ddigon iach i gymryd rhan yng Nghwpan y Byd ar gyfer Colombia. Cafodd ei goes ei hanafu yn ôl ym mis Ionawr a dyw hi ddim wedi gwella'n ddigon da iddo fe chwarae ar lefel proffesiynol.

Fel ymosodwr, Falcao yw'r chwaraewr gorau sydd gan y tîm cenedlaethol Yn ogystal â hyn mae'r tîm wedi colli sawl chwaraewr arall trwy anafiadau. Felly, rhwng hyn i gyd mae'n anodd gweld Colombia yn cyrraedd yn bell iawn yn y Cwpan.

Ond yn y fath achos yr opsiwn arferol yw i'r genedl droi'n Brasiliaid am weddill y twrnamaint!

02.04' Brasil – streic ar y metro

A chyda Chwpan y Byd yn prysur agosáu, mae newyddion o'r wlad ddrws nesaf hefyd yn y penawdau. Mae llawer o dyndra yn ninas fwyaf Brasil , Sao Paulo wrth i weithwyr y trenau tanddaearol gynnal streic am gyfnod amhenodol ers 5ed o Fehefin. Maen nhw'n mynnu codiad cyflog o 12% tra bod y llywodraeth wedi cynnig rhyw 8%.

Mae'r ddinas yn anhrefn efo neb yn gallu cyrraedd eu gweithle, mae'r heddlu wedi bod yn defnyddio nwy dagrau yn erbyn yr undebwyr sy'n gwrthdystio. Mae'r llywodraeth o dan bwysau mawr i ddatrys y streic cyn i'r Cwpan gychwyn yr wythnos nesaf, yn enwedig gan mai Sao Paulo fydd yn cynnal y gêm agoriadol rhwng Brasil a Croatia ar 12fed o Fehefin.

Mae hyn ddim ond yn ychwanegu at yr argraff fod trefniadau ar gyfer Cwpan y Byd wedi bod yn drychineb, ac embaras mawr ar gyfer yr awdurdodau.

03.09' Etholiadau Arlywyddol a'r trafodaethau heddwch

A nawr i droi at etholiadau arlywyddol a thrafodaethau heddwch Colombia, sydd wedi cael eu gostwng i'r ail safle newyddiadurol, er eu bod o arwyddocâd llawer pwysicach ar gyfer dyfodol y wlad.

Ac mae'r ddwy thema wedi'u cysylltu'n agos iawn gyda'i gilydd - os ca'i egluro. Mae'r ddau brif ymgeisydd yn yr etholiad, óscar Iván Zulagua a Juan Manuel Santos, yr arlywydd presennol, wedi mynd trwodd i ail rownd yr etholiad ar 15fed o Fehefin gan nad oedd yr un ymgeisydd wedi cael mwy na phum deg y cant yn y rownd gyntaf.

O ran eu hideoleg, mae'r ddau ymgeisydd yn hynod o debyg - ceidwadwyr a hyrwyddwyr y farchnad rydd. Ond tra fo Santos yn awyddus i gadw'r trafodaethau heddwch gyda'r guerrillas i fynd yn Hafana, Ciwba, mae Zuluaga eisiau cael llawer mwy o gonsesiynau gan y gwrthryfelwyr cyn dal ymlaen efo'r trafodaethau.

A phwy yw'r gwrthryfelwyr hyn? Wel, Y FARC (*Fuerzas Armadas Revolucionarios de Colombia)* neu 'Lluoedd Arfog Chwyldroadol Colombia', grŵp guerrilla aden chwith, sydd wedi bod yn brwydro yn erbyn y llywodraeth ers hanner canrif. Ac er bod sawl proses heddwch wedi bod rhyngddon nhw a'r llywodraethau dros y blynyddoedd maith o ryfela , does na'r un wedi bod yn llwyddiannus hyd yma.

04. 43' Venezuela - achos llys yn erbyn gwrthwynebydd y llywodraeth

Trown ni'n olaf at wlad gyfagos arall , Venezuela (mor gyfagos nes bod y berthynas rhwng Colombia a Venezuela'n debycach efallai i honno rhwng Cymru a Lloegr gyda'u hanes wedi'i rannu ers canrifoedd). Ond gydag un gwahaniaeth sylfaenol heddiw- mae Venezuela yn wlad efo cyfundrefn wleidyddol sosialaidd a chwyldroadol, i'r gwrthwyneb o Golombia. A dyw Venezuela byth allan o'r newyddion yng Ngholombia.

Y tro hwn, mae Leopoldo López, un o brif wrthwynebwyr arlywydd Venezuela, Nicolás Maduro, wedi bod yn y penawdau ar 6ed o Fehefin.

Mae awdurdodau Venezuela wedi penderfynu dechrau achos llys yn ei erbyn yn ei gyhuddo o annog trais yn erbyn y llywodraeth. Cafodd ei arestio ym mis Chwefror ac mae e wedi bod yn y ddalfa ers hynny.

Mae López yn economegydd sy wedi'i addysgu yn yr Unol Daleithiau. Mae e'n arwain plaid o'r enw *Voluntad Popular* (neu Ewyllys Poblogaidd), hon sydd wedi arwain gwrthdystiadau efo miloedd o bobl ar y strydoedd.

Roedden nhw'n protestio yn erbyn sefyllfa economaidd y wlad, efo chwyddiant o tua chwe deg y cant, a phrinder nwyddau yn y siopau megis coffi a phapur toiled , yn ogystal â'r lefel uchel o droseddu. Fel y gallwch chi ddychmygu mae cryn bwyslais mewn rhai sectorau, er yn ddoniol, ar y diffyg papur toiled!

Yn ôl yr Arlywydd roedd y gwrthdystiadau yn ymdrech ar coup d'état ac efo'r bwriad o ddymchwel y llywodraeth. Os bydd y llys yn cael López yn euog bydd e'n wynebu o bosibl 10 mlynedd o garchar. Ond mae ei gefnogwyr yn ei ystyried yn garcharor cydwybod ac yn cwyno am y sefyllfa hawliau dynol yn Venezuela

Dyna brif newyddion Colombia dros yr wythnos diwethaf – diolch yn fawr am wrando!

Ffynonellau

Chwaraeon – Semana (prif gylchgrawn newyddiadurol wythnosol – tuedd canol y ffordd/rhyddfrydol)

http://www.semana.com/deportes/articulo/nairo-quintana-dice-que-colombia-no-es-guerra/390287-3

http://www.semana.com/deportes/articulo/falcao-no-ira-al-mundial-de-brasil-2014/390306-3

Brasil, streic ar y metro – Caracol Radio (tuedd aden dde)

http://www.caracol.com.co/noticias/internacionales/tension-en-sao-paulo-por-enfrentamiento-entre-manifestantes-y-policia/20140606/nota/2261012.aspx

Venezuela, achos llys - El Tiempo (un o'r ddau bapur newydd cenedlaethol - tuedd aden dde/ceidwadol)

http://www.eltiempo.com/mundo/latinoamerica/leopoldo-lopez-ira-a-juicio/14078275